YR YMOFYNNYDD

. . Cylchgrawn Misol . .
Cymdeithas Undodaidd Deheudir Cymru

Golygydd—Y Parch. J. D. JONES, B.A., B.D.

CYFROL XLIII. AWST, 1943. RHIF 8.

Dalen Arall o Lyfr fy Mhrofiad.

GWEINIDOGION A ADWAENAIS.

"BETH am y gweinidogion a adwaenasoch ?" gofynnai rhywun imi. Beth hefyd ? Wel, gorchwyl hawdd a phleserus yw imi adrodd fy mhrofiad yn fy mherthynas â phobun ohonynt —Thomas Thomas, William Rees, John Davies, Rees Cribin Jones, William James, William Eynon Davies. Nid enwaf y genhedlaeth bresennol o weinidogion rhag a fyddo gwaeth ; nid am fod gennyf —nid oes gennyf—un drwg i ddywedyd am un ohonynt ; yn wir, y maent ymron i gyd yn hen ddisgyblion imi, a pharchaf hwynt o lwyrfryd calon ; ac ni chredaf lai nad teimladau parchus a fynwesant hwythau ataf finnau ; felly fy nghred o leiaf—cred a sylfaenaf ar a ddigwyddodd yng Ngwesty'r Castell yn Llanbedr tua thair blynedd yn ôl. Yn naturiol, dydd rhyfeddol o wyn yn fy mhrofiad oedd y dydd hwnnw ; a diolchaf o galon i'm hen gyfaill, y Parch. Islan Jones, am a wnaeth bryd hynny.

Ni wn i ddim yn iawn i ba un o'r ddwy genhedlaeth o weinidogion y perthynaf ; rhyw ddolen gydiol rhwng yr hen a'r newydd, o bosibl, yw fy iawn safle ; yn wir, fe'm rhestrir gan y Parch. T. Oswald Williams o nifer yr hen—"yr olaf o'r barwniaid," ys dywed. Boed felly, nid oes gennyf wrthwynebiad.

Sylwa'r darllenydd craffus, yn ddiau, imi adael allan enw Wilym Marles. Yr oedd ef cyn fy amser i, ac ni chefais gyfle i ddod i gyffyrddiad ag ef. Dwywaith yn unig y'i gwelais—prin gipdrem arno a gefais y ddeudro. Yn y Gymanfa Ganu gyntaf yng Nghapelygroes (1872) y'i gwelais gyntaf. Bu'n annerch y cwrdd yn y prynhawn, eithr yr oeddwn i yn rhy ieuanc bryd hynny iddo adael un argraff arhosol ar fy meddwl a'm cof. Cefais gipdrem arno eilwaith ddydd cwrdd chwarter yng Nghribin ychydig cyn ei farw. Bu'n pregethu yn y prynhawn ar y testun "Ein Duw ni sydd dân ysol." Ni bûm mor ffodus a'i glywed ; eithr tystiai Mr. Davies wrthyf ar ôl hynny na chlywodd erioed bregeth tebig

iddi, o ran arucheledd ei meddyliau ac angherddolder y teimlad a nodweddai'r traddodiad ohoni. Er na bûm mor ffodus a dod i gyffyrddiad ag ef, eto, o wybod a wn amdano, sicr wyf na chyfeiliornaf o'i gyfrif yn un o oreuon broffwydi Duw. Dioddefodd erlid llym ynghwrs ei ddydd byr o rai cyfeiriadau—tynged anocheladwy pob proffwyd. Ie, dydd byr—llawer rhy fyr—a fu ei ddydd ; bu farw yn 45 oed. Eithr er byrred ei ddydd, cyflawnodd waith a esgorodd ar effeithiau a erys hyd y dydd hwn. Gresyn na cheid bywgraffiad ohono, i gadw'n fyw ei goffa, a bod ohono, felly, yn ysbrydiaeth i'r oesoedd a ddel eto.

Y gweinidog y deuthum i gyffyrddiad ag ef gyntaf oedd Mr. Thomas. Y mae ymron hanner canrif (1894) er pan ymddeolodd o'r weinidogaeth ; ac y mae nifer ei gyfoedion, felly, yn lleihau un flwyddyn ar ôl y llall. Dyn o gorff lluniaidd, o osgo urddasol, foneddigaidd ydoedd. Braidd na thybiaf weld ohonof ddarlun byw ohono wrth bennu'r llinellau hyn ; a chlywed ohonof ei lais clir, melodaidd yn disgyn ar fy nghlyw. Oedd Undodwr ; oedd, yr oedd yn Undodwr o'r Undodiaid ; ni cheisiai ac ni wnai gelu'r ffaith mai Undodwr ydoedd. Braidd yr ai Sul heibio heb iddo wneuthur hynny'n ddiamwys amlwg i'r neb a wrandawai arno. Hoff ydoedd o a elwir yn bregethu athrawiaethol—math ar bregethu y sydd wedi llwyr ddiflannu erbyn hyn, ac a gyfrif, i ryw fesur o leiaf, am yr eiddilwch argyhoeddiad y sydd mor nodweddiadol o'n dyddiau ni. Fel rheol, nid heb eithriad, dewisai ei destun o un neu arall o lythyrau Paul. Aml dro y clywais y diweddar Lewis Jones o'r Felinfawr—Felinban, ddiwedydd ei oes—yn ei gystwyo'n erwin oblegid hyn. Casheid Paul gan Lewis â châs perffaith ; o leiaf, dyna'r argraff a wnai a ddywedai ar fy meddwl. Mynych y'i clywais yn dywedyd—"dyn drwg oedd Paul ; ef oedd yn dal dillad y rhai a labyddiodd Steffan ; ie, *dyn drwg* oedd Paul " ; a chyda phwyslais awgrymiadol y dywedai "*dyn dtwg*". Hawdd y gallasai dieithr-ddyn, a ddigwyddai glywed y ddau—Lewis a Mr. Thomas—yn siarad a'i gilydd brydiau hyn, dybied fod ohonynt ar delerau anghyfeillgar y naill â'r llall ; eithr, i'r gwrthwyneb oedd y ffaith—ni bu gan weinidog erioed ffyddlonach disgybl. Bu Mr. Thomas yn teithio—cerdded fynyched a pheidio—Sul ar ôl Sul, boed wlyb boed hindda, i Gapelygroes, dros 37 o flynyddoedd. Ymneilltuodd yn 1894, gyda'i bwerau—corff a meddwl—heb gymaint a dechrau pylu ; a pharchused ydoedd ar y terfyn eithaf ag y bu trwy gydol ei dymor hir.

Cof hynod o felys sydd gennyf am Mr. Rees o Rydygwin. Dyn ydoedd ef a berchid yn fawr gan bawb a'i hadwaenai, ar gyfrif ei wasanaeth fel athro a gweinidog. Ym mhentref Felinfach y cadwai ysgol. Ni wn am ba hyd y bu ei ysgol mewn bod, eithr gwn iddi fod yn hynod o lwyddiannus. Yr oedd hon yn un o'r nifer luosog o ysgolion a gedwid gan weinidogion Undodaidd ynghwrs y ddwy

ganrif ddiwethaf—y ddeunawfed a'r bedwaredd ar bymtheg. Bu'n weinidog yn Rhydygwin a Chiliau am 34 o flynyddoedd, o 1859 hyd 1893. Anodd yw mesur gwerth ei wasanaeth yn y ddau gyswllt hyn ; sicr yw ei fod yn fawr. Coronid ei wasanaeth gan ei gymeriad tryloyw. Ie, cymeriad tryloyw oedd ei gymeriad ; beiddiaf honni na chai na meddwl na theimlad drwg le i nythu yn ei galon lân. Dysgais ei barchu ar gyfrif ei garedigrwydd imi a amlygwyd ganddo mewn amryw ffyrdd. Ef a roddodd imi y cyfle cyntaf i roddi fy nhroed ar ris isaf yr ysgol tua'r weinidogaeth. Ym mhentref Cribin y preswyliai bryd hynny, ac yr oeddwn innau ar wasanaeth yn yr unlle. Ar ei wahoddiad cynnes, aml orig a dreuliais ar ei aelwyd ; ac wedi deall ohono bod ynof duedd at y weinidogaeth, aml dro y dywedodd wrthyf, "Pan fyddoch barod, rhowch wybod, a threfnaf i chwi ddod i Rydygwin." Pan ddaeth yr adeg barod, i Rydygwin yr euthum ; a da iawn y cofiaf ei gyfarchiad cynnes, didwyll, calonogol imi wedi disgyn ohonof o'r pulpud, ar ôl mynd ohonof drwy'r burdan boenus yn Rhydygwin. Felly y dechreuais fy ngyrfa bregethwrol ; ac nid wyf wedi rhoi i fyny'r gobaith o gael cyfle i draddodi ohonof fy mhregeth olaf yn yr unlle, cyn diffodd o'r goleu. O ddigwydd hynny, sicr wyf na bydd neb o bresenolion y Sul cyntaf yn gwrando arnaf ; ni wn fod cymaint ag un ohonynt yn fyw.

Rhag imi flino'r darllenydd, cadwaf a fwriadaf ddywedyd am y gweinidogion eraill a enwais hyd y nesaf.

D.E.

Y Gymdeithas Gyffredinol.

(Detholiad o adroddiadau'r gwahanol gyfarfodydd a gynhaliwyd ym Manceinion —GOLYGYDD.)

Y CROESO

ESTYNNODD Arglwydd Faer Manceinion ei groeso i'r cynrychiolwyr, ac wrth eu hannerch dywedodd y disgwyliai weld mewn mudiad a gysegrwyd i wasanaeth gwirionedd, rhyddid, a chrefydd rai sy'n frwdfrydig iawn dros eu dinasyddiaeth. Dau Undodwr, John a Thomas Potter, gyda Richard Cobden a arweiniodd y mudiad i gorffori Manceinion. Bu gan Undodiaid, oherwydd eu hyspryd blaenfynedol, ran amlwg yng nghreadigaeth dinasoedd. Undodwr oedd maer cyntaf Manceinion, Lerpwl, Leicester, Leeds, a Birmingham. Er nad oedd yn aelod o Gyngor y Ddinas ni wnaeth neb fwy dros ddinasyddiaeth ym Manceinion na C. P. Scott a greodd y *Manchester Guardian*, papur dyddiol nodedig am ddilysrwydd ei adroddiadau a gonestrwydd ei farn. Dinistriwyd hen gapel Cross Street gan y gelyn a cherfiodd rhywun

arwyddlun o'r adeni o un o'i drawstiau llosg. Gobeithiai'r Arglwydd Faer fod y gwaith yn broffwydol.

Y GWASANAETH BLYNYDDOL

Daeth cynulleidfa dda ynghyd i'r Albert Hall, a'r canu'n galonogol dan gyfarwyddyd Mr. E. J. Cookson, organnydd Capel Cross Cross Street. Arweiniwyd gan y Parch. C. H. Easton (Newcastle, Staffs.) a phregethwyd gan y Parch. E. G. Lee. [Gweler YMOFYNNYDD, Mehefin a Gorffennaf 1943.]

Y CWRDD BUSNES.

Wedi canu emyn, gweddiwyd gan Dr. H. MacLachlan. Estynnwyd croeso i'r Gymdeithas dros fudiadau crefyddol y lle gan Ddeon Manceinion, Llywydd Cyngor yr Eglwysi Rhyddion (Dr. C. J. Wright), a'r Parch. H. G. Fiddick, gweinidog yr addoldy lle y cynhelid y cyfarfodydd hyn.

Diolchwyd i'r Parch. H. J. Rossington am ei waith fel llywydd am y flwyddyn, a chanmolwyd ef am ei ddoethineb, a'i fedr, a'i foneddigeiddrwydd. Canmolodd yntau hyder ac amynedd y cynulleidfaoedd mewn amser sydd mor llawn o anawsterau. Etholwyd i gymryd ei le Mr. R. H. Mottram, Y.H., F.R.S.L., (Norwich). Gwrandawyd yn astud ar ei araith o'r gadair.

Trafodwyd busnes arferol y Gymdeithas. Derbyniwyd adroddiad y cyngor a'r gwahanol is-bwyllgorau. Ohonynt codai rhai manylion o ddiddordeb, fel hanes y ddirprwyaeth at Lywydd y Bwrdd Addysg, dan arweiniad Mr. R. Bartram, ynglŷn ag addysg grefyddol yn yr ysgolion elfennol; y cyhoeddiad fod cynulleidfa Hinckley wedi peidio a gofyn am gymorth o'r Sustentation Fund—arwydd croesawus o gynnydd; y newydd fod y Parch. Margaret Barr ar ei ffordd yn ôl o'r India. (Os bydd cynulleidfa am ei chlywed danfoner y cais at Essex Hall). Rhoes y trysorydd (Mr. R. P. Jones) adroddiad manwl o'r sefyllfa ariannol. Cydnabyddwyd lle cynulleidfa Undodiaid Cymreig Llundain ar restr y cynulleidfaoedd. Crewyd lle ar gyngor y Gymdeithas i gynrychiolydd yr Young People's League. Wedi diolch i'r swyddogion am eu gwaith gorffennwyd cwrdd y bore.

Yn y prynhawn ymdriniwyd â'r penderfyniadau ar gwestiynau pwysig y dydd.

Cydsyniwyd i ofyn i'r cyngor ystyried cais y War Emergency Service Committee am gydnabyddiaeth fel pwyllgor arbennig o'r Gymdeithas. Talwyd gwrogaeth i ysgrifennydd y pwyllgor (y Parch. C. J. Grieve) am ei waith yn ennill i'r pwyllgor hwn gydnabyddiaeth swyddogol fel un o'r cymdeithasau gwirfoddol sy'n ymwneud â gofynion y byd wedi'r rhyfel.

Cyfeiriodd Dr. S. J. Kennett at y Comisiwn ar Waith yr Eglwysi.

Casglai'r Comisiwn ar hyn o bryd oddiwrth y gwahanol gymdeithasau ffeithiau am gyflwr yr eglwysi ac awgrymiadau am eu datblygiad yn y dyfodol. Yr oedd tri is-bwyllgor eisoes yn delio â chyhoeddusrwydd, yr eglwys a'r weinidogaeth, a gwasanaeth ymhlith ieuenctid.

Derbyniwyd y penderfyniadau a ganlyn :

Y SEFYLLFA FWYD YN EWROP:

That this Annual Meeting of Ministers and Delegates of the General Assembly of Unitarian and Free Christian Churches expresses profound concern regarding the food situation in the occupied countries of Europe. We recognise that famine condition threaten the lives of millions, both Allies and neutrals, even more than enemies. We rejoice that the military, political, technical difficulties have been so far overcome as to permit the entry through the blockade of limited supplies to the heroic people of Greece, and we urge H.M. Government, provided that there is reasonable ground for hope that such supplies will reach those for whom they are intended, to use all practical measures to save the lives and earn the gratitude of other suffering peoples of Europe.

ERLID YR IDDEWON:

That this Annual Meeting . . . viewing with profound concern the persecution of the Jews, welcomes the recent declaration by the United Nations and pledges full support for any steps that H.M. Government can take to give practical expression to its contents. In particular we regard the alleviation of the refugee situation in Spain and Portugal as an urgent necessity, and respectfully urge H.M. Government to consider :

(*a*) the establishment of a camp of temporary asylum in North Africa, in co-operation with the U.S. authorities ;

(*b*) the extension of facilities for the entry of Jewish refugees into this country and other parts of the Empire, having due regard to matters of security ;

(*c*) the possibility of a declaration by the United Nations to the effect that they are prepared to regard the rehabilitation of refugees as a primary concern in their post-war programme.

Penderfynwyd yn ychwanegol ar fater erlid yr Iddewon :

That this Annual Meeting . . . strongly condemns the growth of anti-Semitism in Great Britain, and calls on H.M. Government to take action against any persons who make false and malicious statements against the Jews.

PLAN BEVERIDGE;

That this Annual Meeting . . . welcomes the Beveridge Report as a valuable contribution to the problem of "Freedom from Want" in the post-war world. It therefore urges the Government :

(*a*) to accept without reservation the principles embodied in the Beveridge Plan ; and

(*b*) as an earnest of its intentions, to establish immediately a Ministry of Social Security, armed with all the power necessary for making full preparation to carry the Report into effect.

YR INDIA:

That this Annual Meeting . . . while recognising the efforts the Government have made and the exceeding difficulty of the Indian problem, would urge upon the Government the wisdom of re-opening negotiations with responsible leaders.

Y CYFARFOD CYHOEDDUS.

Y pwnc a drafodwyd oedd "Crefydd rydd mewn byd rhydd." Cadeiriwyd gan Mr. Harold B. Moore, llywydd y Manchester District Association.

Dywedodd Syr C. Sydney Jones, LL.D. (Lerpwl) mai angen pennaf y byd yw crefydd sydd yn rhydd oddiwrth ddogma. Wrth ryddid ni feddylir pen-rhyddid ; hawlia rhyddid ddisgyblaeth ac ymreolaeth.

Heibio i ganrif yn ôl i gwrdd ag anghenion poblogaeth newydd y lleoedd diwydiannol codid addoldai dan ddylanwad y diwygiad Wesleaidd. Cyfnod crefyddol mewn gwirionedd, ond nid oedd y gydwybod gymdeithasol ar ddihun ; yng nghanol cyfoeth mawr yr oedd tlodi dygn a dioddef. Cyfnod y lliniaru oedd hwn, a dilynwyd ef gan gyfnod y meddyginiaethu, cyfnod Florence Nightingale a William Rathbone, cyfnod sefydlu llawer o fudiadau dyngarol. Gwelwyd effaith anwybodaeth, a'r canlyniad oedd deddf addysg 1870. Y cyfnod presennol yw cyfnod meddyginiaeth ataliol. Yn anffortunus y mae gwyddoniaeth heddiw yng nghlwm wrth ddelfrydau anghywir. Cynorthwyo i ddod ag achos crefydd yn ôl i fywyd y byd yw gwasanaeth yr eglwysi. Cyn hyn, bu amseroedd gwael yn hanes y byd ; dilynwyd hwy gan y "dyddiau mawr."

Rhaid pwysleisio ein dyledswyddau yn hytrach na'n hawliau. Byddwn yn well o feddiannu'r ymdeimlad o ddyledswydd sy'n nodweddu'r syniad Piwritanaidd am fywyd. "Dechreuad doethineb yw ofn yr Arglwydd."

* * *

Siaradodd y Parch. Herbert Barnes (Newcastle-on-Tyne) ar y "Pwyslais Rhyddfrydig". Daliai fod dynion yn dod i goleddu safbwynt mwy cywir am hanfodion Cristnogaeth. Nid ystyrrir Cristnogaeth mwyach fel cynllun clyfar er mwyn achub yr unigolyn, nac hefyd yn rhyw gyfundrefn ysgolheigaidd o athrawiaeth. Fe'n gyrrwyd yn ôl at ddisgrifiad mwy primitif o Gristnogaeth fel ffordd o fyw fel unigolion ac mewn cymdeithas.

Bod Duw yn Dad i bawb ; bod dynolryw yn Fab iddo ; mae plant Duw ydym trwy genhedliad ac ad-genhedliad, ac oherwydd hynny fod bywyd yn gysegredig a bod y ddynoliaeth yn ddwyfol yn ei phosibilrwydd ; bod ysbryd dyn yn rhydd, a bwriadwyd i ni ei gadw yn rhydd : dyna rai o'r egwyddorion sy'n nodweddu ein syniad am grefydd, a chredwn fod eu heisiau ar y dyfodol er mwyn ei gynnydd a'i hawddfyd.

Yn ein tystiolaeth arbennig pwysleisiwyd y *meddwl* cymdeithasol a chrefyddol, ac yn ddiamau gelwir am y ddefnydd mwyaf o'n galluoedd meddyliol, ond nid digon y meddwl mwyaf goleuedig. Grym symudol y byd yw *teimlad*, ac o bydd y teimlad yn ddrygionus gall ddinistrio'r meddwl mwyaf cywir.

Rhaid fod tri pheth yn nodweddu ein crefydd rydd—gweledigaeth o'r dydd pan waredir y ddynoliaeth o ryfel a gormes wleidyddol, tlodi ac ansicrwydd cymdeithasol ; ffydd realistig mewn dyn yn sylfaenedig ar yr argyhoeddiad y gellir cyfnewid y natur ddynol, ac y gall dynion sydd wedi eu cyfnewid gyfnewid cymdeithasau dynol ; a phenderfyniad i fyw yn deilwng o ddydd gwaredigaeth.

* * *

Er ennill y rhyfel ni byddai'r byd yn fyd rhydd, meddai Mr. Ernest E. Dalton (Leeds) a siaradodd ar y testun—"Gobaith a Chyfleustra." Rhoddai buddugoliaeth i ni gyfle i ryddhau'r byd, ac ymddibynai popeth ar dderbyn ohonom y cyfle. Ein dyledswydd yw gwella'r byd o'i ddellni meddyliol a'i ddysgu i adnabod y drwg. Yn hyn y mae cyfle ein crefydd rydd.

Tybia rhai y gellir gwella holl ddrygau'r byd trwy basio cyfraith yn y Senedd. Dysgodd y siaradwr wagedd y fath obaith trwy brofiad chwe mlynedd ar hugain yn yr heddlu. Dim ond trwy ddysg ac esiampl y gwneir dynion yn sobr ac yn onest.

Rhaid i'n crefydd fod yn berffaith rydd nid yn unig oddiwrth ddogmau ond hefyd oddiwrth dyfiant traddodiadau ogylch ein bywyd eglwysig.

Byddwn wrol i gyhoeddi ein ffydd nid yn unig fel un sy'n apelio at reswm ond hefyd at deimlad. Gofyn ieuenctid heddiw am gredo sy'n apelio at y teimlad, at y parodrwydd i aberthu, heb alw arnynt i wadu eu rheswm.

* * *

Symiwyd yr ymdrafodaeth gan y Parch. Mortimer Rowe. Teimlai ef fod i ni berygl yn ein hymarferiad o ryddid crefyddol, y perygl o wneud rhyddid gwladol a chrefyddol fel rhyw nod pendant a chyflawn, a dim ond hynny. Pan gynigiodd Athro crefyddol unwaith i'w gydoeswyr fesur llawnach o'r gwirionedd sy'n gwneud dynion yn rhydd, ffrwynasant ar unwaith yr awgrym fod ganddynt hwy rywbeth newydd i'w ddysgu am ryddid. Yn y digwyddiad y mae gwers amserol.

> "Each hard-won freedom withers to a bond ;
> Freedom for ever is beyond—beyond ! "

Ni bu dynion yn meddwl cymaint am ryddid, a chafodd pob syniad cul ac anghywir am ryddid ddyrnod angeuol. Rhaid felly i'r syniad am ryddid crefyddol beidio ag aros yn yr unfan tra mae'r syniad lletach am ryddid yn datblygu. Gobrwywyd ein heglwysi yn helaeth pan oeddynt yn arloeswyr yn yr ymdrech. Ond awgrymai'r siaradwr, dylent ofyn o ddifrif iddynt eu hunain—a ydynt yn aros yn rhy hir gyda'u syniad arbennig am ryddid

crefyddol yn lle cerdded rhagddynt at y syniad o ryddid cymdeithasol sy'n gwneud cyfiawnder â hawliau pawb, ac yn lles i bawb.

Hyderai Mr. Rowe y byddai'r dô ieuengaf o'n gweinidogion a'n lleygwyr yn dysgu ein cynulleidfaoedd i gyrraedd yn eu cyfeillach grefyddol y syniad cyflawnach am ryddid crefyddol. Fel enghraifft cyfeiriodd at waith un grŵp, nid unigolion, sef llyfryn ar hanfodion ein crefydd ryddfrydig, sydd yn awr yn barod i'r wasg. Mewn amheuaeth y byddai ein traddodiad o farn annibynol yn rhwystro'r fenter, gweithiasant gyda'i gilydd, a daethant i weld fod eu gafael yn eu testun yn ddyfnach na phe baent wedi gweithio ar eu pennau eu hunain. Yn y profiad y mae gwers i'r eglwysi.

CWRDD CYHOEDDUS Y BOBL IEUAINC.

Dywedodd Dr. S. J. Kennett yn ei araith o'r gadair mai nodwedd amlycaf ieuenctid oedd ffydd, ac eglur ydoedd hynny yn yr areithiau a ddilynodd ar y testun "Ffydd ieuenctid yn yfory."

Edrychodd Mr. W. Vaughan Lewis, M.A. (Pontypridd, yn awr o Gaergrawnt) ar y testun o'r safbwynt cenedlaethol. Bwriodd drem ar atitiwd ieuenctid cyn y rhyfel, a nododd rai cyfnewidiadau a wnaeth y rhyfel. Dangosodd fel yr amrywiai atitiwd ieuenctid o ddirmyg at bopeth da hyd at frwdfrydedd dros bopeth da. Rhwng y ddau begwn hyn yr oedd llaweroedd a'u bywydau'n gyfangwbl yn troi ogylch y sinema, y neuadd ddawns, a'r dafarn. Rhaid canolbwyntio ar y grŵp bach detholedig fel y bydd iddo lefeinio'r dyfodol. Nid oedd ieuenctid cyn y rhyfel heb nodweddion rhagorol. Gwerthfawrogid prydferthwch golygfeydd naturiol, miwsig, y celfau cain, ac esiampl uchel, ond ni cheid bob amser y cyfleusterau i'r ifanc i'w fynegi ei hun. Dymuna fod yn weithgar, ond blynyddoedd diwaith, mewn materion rhyngwladol, gartref, ac yn yr eglwysi, oedd y blynyddoedd cyn y rhyfel. Yr oedd ieuenctid yn ymwybodol o anghyfiawnder yr anghydraddoldeb mewn cyfleusterau ac yn feirniadol o arweinwyr y bywyd cenedlaethol. Y canlyniad oedd dieithrio'r ifainc, diffodd eu brwdfrydedd, a phylu eu gweledigaeth o'r ddelfryd. Yn nodweddu ieuenctid cyn y rhyfel yr oedd ffydd, ffydd wedi ei chau i mewn gan bryderon ac ofnau.

Beth yw effaith profiadau'r rhyfel ar ieuenctid ? Ar yr ifanc, yn fwy na neb, y disgyn dyrnod rhyfel. Tynnir hwy oddiwrth eu galwedigaethau a'u bywyd arferol, a gosodir arnynt gyfrifoldeb mawr. Gwir fod rhai o'r hen arferion wedi mynd ; gwir fod llawer oherwydd hynny wedi syrthio. Ond credai'r siaradwr y gellid trystio'r ifanc. Deuant i weld diffrwythdra byw er mwyn pleserau isel, a byddai ffasiwn dilyn y pleserau hynny'n mynd. Drwy brofiadau'r rhyfel deuent i sylweddoli beth sydd o wir werth.

Unwaith y boddheid yr awydd am anturiaeth, byddai eu meddyliau'n troi eto at y bywyd gartref. Hiraethent am ddod yn ôl, nid i gario ymlaen lle y gadawsant ond yn llawn sêl dros adnewyddu ac adeiladu. Cipiwyd dychymyg y genedl gan frwdfrydedd dros welliannau cymdeithasol, ac y mae y rhain wedi tanio meddwl ieuenctid. Rhag iddynt fod ar ôl eu cymrodyr, fel y dywed un ohonynt, y mae'r carcharorion rhyfel yn paratoi ar gyfer arholiadau. Y mae eu ffydd yn y dyfodol gymaint fel y mae'n herio'r genedl yn gyfan rhag twyllo'r genhedlaeth bresennol fel y twyllwyd eu tadau.

Boed ffydd yr Undodiaid yn yfory yn ffydd cyflawn. Bydded iddynt ddod i gwrdd â brwdfrydedd yr ifanc, a pheidio a disgwyl i'r ifanc ffitio i mewn i ffrâm y bywyd enwadol heb wneud rhai cyfnewidiadau. Wrth weithredoedd y mae'r ifanc yn testio credo, a thra y mae unigolion yn ein mudiad wedi gwneud gwaith ragorol fel diwygwyr cymdeithas y mae arnom angen hefyd gweithredu gyda'n gilydd fel un corff. Rhodder i'r ifanc eu cyfle yn y gweithredu hwn fel y disgyn ar eu hysgwydd etifeddiaeth ysbrydol y rhai a unodd i addoli Duw a gwasanaethu dyn.

* * * *

Edrychodd Miss Joan Hartley (Gorton) ar y testun o'r safbwynt rhyngwladol. Fel ysgrifennydd yr International Religious Fellowship cafodd gyfle da i adnabod pobl ieuainc llawer gwlad, a bu'r adnabyddiaeth yn gyfrwng i bwysleisio'u dynoliaeth gyffredin. Y mae'r ffaith y gellir galw dieithriaid yn ffrindiau yn pwyntio at ateb boddhaol i un o'r problemau gwaethaf sy'n tywyllu'r dyfodol. Angen y byd yw ffydd mewn Duw na chydnebydd ffiniau cenedl. Ffigur marw yn fynych yw Crist y diwinyddion, ac mewn contrast rhaid inni bwysleisio ysbryd y Crist byw yng nghalonnau dynion. Achos ein diffygion yw ein methiant i garu ein cymydog fel ni ein hunain.

Dywedodd Miss Hartley fod cadwyn y gyfeillach a sefydlodd yr I.R.F. dros y byd yn dal yn gyfan ar waethaf ymraniadau'r rhyfel. Gallai fod yn fach, ond o ddechreuadau bychain y tarddodd llawer mudiad mawr. Symiodd ei gobaith am y dyfodol yng ngeiriau John Oxenham, "In Christ no East or West, no North or South, but one great fellowship of love throughout the world."

* * * *

Y trydydd siaradwr oedd Mr. Alan Whitehead (Denton), ac edrychai ar ei destun o safbwynt personol, fel aelod o adran ieuengaf ein mudiadau ieuenctid. Y lleiafrif bychan yw'r ieuenctid meddylgar, ac oni all yr ifanc feddwl yn adeiladol nid oes ganddynt hawl i feirniadu. Cefndir meddyliol y siaradwr oedd y rhyfel, a nodwedd amlycaf rhyfel yw gweithgarwch. Gwir fod pobl ieuainc heddiw'n gweithio dros ddibenion distrywiol, ond beth pe rhedid

yr holl weithgarwch hwn i mewn i sianelau adeiladol? Rhaid i grefydd roi sylw i weithgarwch yr ifanc. Ni fynnant yr hollti blew sy'n gysylltiedig a'r dadleuon diwinyddol, ond eu diddordeb pennaf yw gweld dysgeidiaeth Iesu'n cael mynegiant yn y bywyd beunyddiol. Cydnabyddai'r siaradwr fod adrannau ymhlith y bobl ieuainc sy'n elyniaethus i grefydd, a chredai fod angen darbwyllo'r ifanc o gyfraniad crefydd i bob cylch o wasanaeth. Yn agos at galon ieuenctid y mae addysg, ac yn y cylch hwnnw dylid gwrando arnynt. Hawliai'r siaradwr gyfleusterau cydradd i bob plentyn a chydbwysedd rhesymol yng ngwaith yr ysgolion fel sylfaen hunanddiwylliant. Edrychai'r ifanc ymlaen at fyd y ffynnai ynddo'r pedwar rhyddid—rhyddid oddiwrth angen, rhyddid oddiwrth ofn, rhyddid i lefaru, rhyddid i addoli. Gweithient am fyd y mae'r cenhedloedd ynddo'n cydweithredu mewn tangnefedd.

* * * *

Siaradodd y Parch. Leonard Mason, B.A., B.D. (Norwich) o safbwynt y gweinidog ifanc. Dywedodd mai nodwedd ieuenctid oedd ymddiriedaeth y gellid cael gobrwyon oedran trwy ufudd-dod i reolau cymdeithas. Gwir fod rhai pobl ieuainc yn watwarus ac yn balchio nad oes ganddynt ddelfrydau. Mewn rhai cylchoedd y mae'n ffasiynol i fwrw sen ar y gogoneddus. Ond ni chynrychiolir mwyafrif ieuenctid gan y rhain.

Rhagolwg y dyfodol yw democratiaeth burach, dinasoedd newydd, ac adferiad byd briw, ond o'r tu ôl i'r weledigaeth y mae amheuaeth oherwydd torri addewidion tebyg wedi'r rhyfel diwethaf. Er mwyn ennill teyrngarwch yr ifanc rhaid difodi'r ysbryd di-fenter sy'n cynnig rhyw hanner-mesurau. Edrychai'r ifanc at yr eglwysi am arweiniad. Beirniadir hwy yn fynych am hawlio gormod, a hwythau'n rhoi rhy fach. Ond nid gwir hyn mewn materion crefyddol. Ni ofyn yr ieuenctid heddiw am Baradwys, ond gofynnant am fendith seml ar eu gwaith yn y byd. Rhaid dangos iddynt fod Duw'n trefnu gwaith eu dwylo.

Unwaith y deallai'r eglwysi awydd yr ifanc i wasanaethu byddai cymorth yr ifanc wrth law. Dyma fater o bwysigrwydd enwadol.

* * * *

Diolchodd Dr. Kennett i'r siaradwyr, a gobeithiai y sylweddolid symuniadau ieuenctid y tro hwn. Credai y byddai ffydd ieuenctid heddiw yn ail-danio'r genhedlaeth debyg ei phrofiadau a gollodd ei ffydd wedi'r rhyfel diwethaf.

Yn y cyfarfod hwn casglwyd £23 4s od. tuag at yr Hibbert Houses.

Y Cyfarfodydd Blynyddol.

CYNHALIWYD Cyfarfodydd Blynyddol y Gymdeithas Undodiadd Gymraeg yng Nghapel y Graig, Llandysul ar brynhawn a hwyr Mercher, Gorffennaf 28, dan lywyddiaeth yr Henadur M. Ll. G. Williams, Y.H., Llanybyther. Nid oedd y cyrddau yn lluosog dros ben ond o ystyried y tywydd, prysurdeb pobun wrth ei waith ynghyd ag anghyfleusterau teithio credaf nad oedd angen cwyno. Gyda llaw, y mae'n syn bod llawer un a ellid yn resymol ddisgwyl iddo fod yn bresennol yn cadw draw o bob cyfarfod. Nid yw hynyna ond gyda llaw, am y tro. Ceir hamdden efallai i'w drafod eto. Nid oedd dim o bwys anghyffredin yn y pwyllgor gwaith ar wahan i'r COMISIWN y bu Dr. Kennet yn sôn amdano yn Llanbedr yn ddiweddar. Y mae y Comisiwn hwn yn bwysicach nag y cred llawer un ohonom. Yr ym ni fel pob enwad yn wynebu un o gyfnodau tywyll hanes. Ni wyddom beth fydd hanes ein heglwysi na chrefydd drannoeth i'r drin. Pwysleisir y ffaith nad oes ond un neu ddau o'n gweinidogion yn y sir yn weddol ifanc ac y mae problem llanw ein pulpudau a llanw ein heglwysi gyda llaw, yn broblem anodd a dyrys. Pwysleisir y ffaith fod difrawder a difaterwch yn gafael ynom ac onid ydym i brofi yn frawdwyr i'r hen ffyddloniaid bydd raid inni bob yr un ddihuno, ac aberthu. Y mae y blynyddoedd nesaf yma yn mynd i roi eu marc er da neu drwg ar ein mudiad ni.

Ni rof y manylion am y'u ceir ond odid gan yr ysgrifennydd fel arfer.

Dechreuwyd cwrdd y prynhawn gan y Parch. S. Evans-Bowen a chafwyd anerchiad y llywydd yn nhermau'r ffordd fawr, chwedl yntau, a chaiff pobun gyfleu i'w hastudio, oherwydd fe'i cyhoeddir yn y rhifyn nesaf.

Dilynwyd ef gan y Parch. T. O. Williams, M.A., Llanbedr.

Yn yr hwyr, dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Aubrey Martin, B.A., Capelygroes, a phregethwyd gan y Parchn. D. Jacob Davies, Aberystwyth a J. D. Jones, B.A., B.D., Pontardawe.

Gan i mi gael fy apwyntio yn *Press Correspondent*, ni wn yn iawn a ddisgwylir oddiwrthyf. Gwn fod gwŷr y wasg yn beirniadu yn llym ar ambell dro, ac oni byddo pethau yn cael eu cario 'mlaen fel y credaf y dylasent, defnyddiaf innau fy hawl er gosod y byd yn ei le. Nid yw ond teg rhoi rhybudd cynnil cyn dechrau. Purion peth fyddai cael gair caredig am weithrediadau'r dydd er rhwystro yr hanes rhag bod yn ddim ond cofnod moel.

Nid yw y gymdeithas yn fyw i bynciau'r dydd, ac nid yw problemau'r dydd wedi cael nemor sylw ganddi. Y mae galw am weledydd ac ambell rebel i drwblu'r dŵr a dinoethi ein difrawder. Fe'm hapwyntiasoch fi yn unfrydol. Tybed y byddwch yr un

mor unfrydol i'm symud ymhen blwyddyn. Cawn weld. Y mae gennyf gyfleu i wyntyllu llawer pwnc, a gobeithio nad oes neb ohonom mor groendeneu fel na fedr oddef cerydd yn yr ysbryd priodol. T.O.W.

COFNODION Y PWYLLGOR.

Cynhaliwyd yng Nghapel y Graig, Llandysul ar Orffennaf 28, y llywydd, yr Henadur M. Ll. Gwarnant Williams, yn y gadair. Cymrwyd y rhan ddefosiynol gan y Parch. T. O. Williams. Darllenwyd a chadarnhawyd cofnodion y pwyllgor blaenorol. Daeth gair oddiwrth y trysorydd yn cwyno'i anallu i fod yn bresennol.

Neges Dr. Kennett.—Pasiwyd, os bydd traul ynglŷn â chario'r neges allan, fod y Gymdeithas yn gyfrifol amdano.

Cynulleidfa Gymraeg Llundain.—Pasiwyd gwneud grant o £5 a rhoi ar ddeall fod croeso iddi ddod yn aelod o'r Gymdeithas.

Cyrddau'r Hydref.—Derbyniwyd gwahoddiad i'w cynnal yn Rhydygwin.

Swyddogion.—Etholwyd a ganlyn : Llywydd, y Parch. J. D. Jones, Trebanos ; Is-lywydd, Mr. John Evans, C.S., Capelygroes ; y swyddogion eraill yn parhau.

Hysbysebu.—Pasiwyd fod Cyrddau'r Gymdeithas, chwarterol a blynyddol, i gael eu hysbysebu'n y *Welsh Gazette*.

Diolch.—Diolchwyd yn gynnes i gynulleidfa'r Graig am dderbyn y Cyrddau. Diolchwyd hefyd i'r Llywydd a'r Swyddogion eraill am eu gwasanaeth.

Ysgrifennydd Gohebol.—Penodwyd y Parch. T. O. Williams yn ysgrifennydd gohebol.

E. O. Jenkins, Ysg.

Yr Undodiaid a'r Presennol.

Cyfundeb bach yw'r Undodiaid,* ac yn enwedig mewn cyfnod a hynodir gan *mass organisation* a *mass propaganda* geill yr ymdeimlad o fychander fynd yn ddigalondid, nid oherwydd credu fod eu cyffes yn anghywir neu eu cenadwri'n ddibwys ond oherwydd credu ohonynt fod eu nifer yn rhy fach i fod yn ddylanwadol.

Yn y bedwaredd ganrif ar bymtheg cyfundeb bach oedd yr Undodiaid, a'r pryd hynny gwnaethant ddaioni mawr fel arloeswyr. O fewn y cyfundeb ceid arweinwyr cymdeithasol a meddyliol y cyfnod. Os bydd ganddynt ffydd yn eu cenhadaeth a'u hefengyl gallant wneud gwaith mawr eto'n yr ugeinfed ganrif. Y mae maes y genhadaeth yn eang, a llaweroedd yn hiraethu am genadwri'r Undodiaid.

Beth am rai o'r anawsterau ? Yn y gorffennol yr oedd achos yr anawsterau y tu allan iddynt. Edrychid arnynt fel hereticiaid, ac yn wir gwneir hynny heddiw mewn llawer cyfeiriad.

*Sylwedd araith y llywydd, Mr, Taliesin Griffiths, Aberdâr, yng nghyfarfod blynyddol Cymdeithas Morgannwg yng Nghaerdydd ar Ebrill 28. Yn y cwrdd hwnnw trafodwyd adroddiad yr Is-bwyllgor ar gyflwr cyffredinol yr eglwysi. Etholwyd y Parch. J. Marles Thomas, M.A. yn llywydd am y flwyddyn.

Credaf fod ffasiynau yn safbwyntiau dynion fel mewn gwisgoedd. Y mae llawerocedd yn ddigartref yn grefyddol heddiw oherwydd iddynt yn eu dallineb ddilyn rhyw ffasiwn grefyddol. Yna wedi agor eu llygaid gwelant nad yw'r ffasiwn grefyddol yn rhoi boddhad. Teimlaf yn sicr fod dydd yn dod pryd na all pobl fyw fel y gwnant heb gydnabod y sylwedd arhosol sy'n rhoi ystyr i'n bywydau cyfnewidiol.

Y mae hefyd rwystrau oddimewn. Er mwyn bod yn wasanaethgar rhaid i'r Undodiaid eu rhyddhau eu hunain o bob gwendid sydd yn rhwystr iddynt yn eu cenhadaeth; rhaid iddynt fod yn barod i gyfnewid hen arferion a thraddodiadau er mwyn cwrdd ag anghenion y presennol. Dylai'r eglwys fod yn gymdeithas o ffrindiau lle y geill pobl fod yn naturiol ac yn rhydd a chael ynddi'r awyrgylch ysbrydol a fydd yn eu galluogi i brofi presenoldeb Duw. Fel Undodiaid rhaid i ni geisio deall meddyliau a theimladau dynion eraill, eu cyfarfod ar eu tir eu hunain, a thorri i lawr y ffiniau sy'n eu cau i mewn, fel y gellir eu helpu i gyrraedd safbwynt crefyddol newydd.

Rhaid i'r gweinidog ddilyn golau ei weledigaeth, hyd yn oed pe methai a manteisio ar bob cyfleustra. Yn naturiol bydd yn ostyngedig, yn ymwybodol o ddwyster yr alwad, ac yn teimlo'i ddyledswydd i argyhoeddi dynion am Dduw a'u tywys i sylweddoli'r ddelfryd.

Geill pob cynulleidfa fach fod yn un ddelfrydol, yn un y mae'r ddelfryd yn amlwg ynddi, yr edefyn euraid hwnnw sy'n mynd drwy ein holl amgylchiadau a'u hanawsterau.

Dylem ddiolch i'r tadau am ein treftadaeth ysbrydol, mor llydan ac mor rhydd, a bydded ynom ninnau benderfyniad i estyn tors Undodiaeth i'r genhedlaeth a ddel, fel y galluoger hi i weld dyfnder ystyr y ffydd sy'n cyhoeddi Tadoldeb Duw a Brawdoldeb Dyn. Syml a dealladwy yw ein crefydd, a phan gydnabyddir hi fel y peth mwyaf sylweddol yn ein bywyd y pryd hynny y gwelir ei gwir werth.

Gan ysgrifennwyr ar Addysg heddiw pwysleisir nid gawith yr ysgol yn gymaint a'r plant, ac wrth ddelio â phlant yr ydym yn delio â thyfiant personoliaeth. Rhaid eu dysgu i gael y gorau allan o fywyd, a'u hyfforddi i weld ei ystyr ac wynebu ei siomedigaeth, ei lawenydd, a'i drallod. Y mae'n bwysig planio eu haddysg ar gyfer byw mewn cymdeithas Gristnogol.

Beth am yr eglwys a'r bobl? Cofiaf un o ymadroddion y Parch. J. Page Hopps, os na ddaw'r bobl i'r eglwys rhaid i'r eglwys ddod at y bobl. Busnes yr eglwys yw bod yn bendant ar bynciau ffydd a gwasanaethu'r ddynoliaeth trwy wella trefniant cymdeithas, mewn gair, gweithio dros lywodraeth Duw ar y ddaear. A busnes pob aelod o'r eglwys yw bod yn frwdfrydig dros y pethau hyn.

Y mae i'r Undodiaid record ragorol yn y gorffennol. Ond beth am y presennol a'r dyfodol? Rhaid i'r eglwysi mewn gwirionedd fod yn ganolfannau cyfeillach Gristnogol, ac y mae gan Dduw waith ar gyfer pob teip o gyfeillach grefyddol.

Ymhlith arloeswyr yr ysgol Sul ceir Undodiaid. Yn 1833 ffurfiwyd y Sunday School Association.

Gwnaethpwyd cynnydd mawr yn y gwaith o greu cyfryngau er mwyn uno'r cynulleidfaoedd rhyddfrydig hyn. Sefydlwyd cyfnodolion, yr *Inquirer* (1842), YR YMOFYNNYDD (1847), y *Christian Life* (1876). Yn ystod y cyfnod hwn digwyddodd llawer o gyfnewidiadau cymdeithasol, a bu'r Undodiaid gyda'r cyntaf i ddangos eu diddordeb, yn enwedig mewn Addysg a Llywodraeth Leol. Ond yn fwy pwysig nag un ymdrech dros welliannau cymdeithasol yw eu cyfran mewn cymeriad. Heb arweinwyr o gymeriad nid yw'r ddynoliaeth ond tyrfa ddi-reol, ac heb ffydd gadarn mewn Duw a dyn nid oes werth mewn unrhyw arweinyddiaeth. Yn yr ymdrech i feddiannu ei ffydd y mae dyn yn tyfu personoliaeth a chymeriad, ac yn agor ei lygaid ar y rhyfeddodau sy'n ei amgylchu. Ni eill fod yn foddhaol ar ei gyraeddiadau; rhaid iddo wthio ymlaen ar anturiaethau mwy. Ac felly y mae ym mhob cenhedlaeth—rhaid fod rhyw ychydig, o flaen y lleill, yn paratoi'r llwybrau—yr arloeswyr, eu gwroldeb yn eu tanio a'r cymhelliad dwyfol yn peri iddynt gerdded rhagddynt.

"Canys ni welodd llygad, ac ni chlywodd clust, ac ni ddaeth i galon dyn y pethau a ddarparodd Duw i'r rhai sy'n ei garu ef."

Er hynny ar bob cam o'r ffordd, bydd dynion, pan fyddant ufudd i'r weledigaeth nefol, yn profi fod Rhywbeth rywle yn y cyfanfyd yn cwrdd a'u hangen. A'r peth hwn yw'r Ysbryd sy'n cyd-cyd-dystiolaethu a'u hysbrydoedd ni ein bod ni yn blant i Dduw.

Y Gymanfa Ganu.

BU cryn bryder ac ofn am lwyddiant y Gymanfa eleni am fod teithio a darparu bwyd yn faterion mor anodd, ond pan ddaeth y diwrnod mawr ni fu'r materion anodd hyn yn rhwystr i lwyddiant y Gymanfa.

Cynhaliwyd hi eleni eto yng Nghapel Soar, Llanbedr (trwy ganiatâd caredig y gynulleidfa), ac er fod yr hin dipyn yn anffafriol ar y seithfed o Fehefin credaf na fu'n achos cadw neb a ewyllysiai rhag dod i'r ŵyl fawr fel arfer. Bu'r tri cyfarfod yn llwyddiant mawr, y canu cystal ag erioed, a'r tonau i gyd yn ganadwy, yn enwedig "St. Dewi," "Elmina," "Aeron," a "Godre'r Coed." Yr oedd y canu'n rymus a glân, heb weiddi, ac yr oedd tonau defosiynol fel "St. Mary Magdalene," "St. Nicholas" yn creu awyrgylch grefyddol, a'r organydd, Mr. Charles Clements, Mus. Bac., F.R.C.O., yn deall ei grefft.

Dechreuwyd cyfarfod y bore gan y Parch. A. J. Martin, B.A., a llywyddwyd yn ddeheuig iawn gan foneddiges flaenllaw o Gapel y Fadfa, sef, Miss Thomas, Green Grove, merch y diweddar Thomas Thomas a'i briod, rhai a fu'n asgwrn cefn i'r canu'n y Bwlch drwy gydol eu hoes. Y mae Miss Thomas yn llanw eu lle. Da gwybod iddi arwain y canu yn y Gymnafa Bwnc eleni. Wrth annerch y

cyfarfod rhoes nifer o awgrymiadau gwerthfawr i'r plant ac i bawb sy'n ymddiddori yng nghanu a llwyddiant yr ysgol Sul. Yr oedd y tonau o fewn cyrraedd y plant, a'r anthem hefyd o'r un safon. Adroddwyd yr emynau gan Twelly Davies (Graig), Gwen Evans (Llwynrhydowen), Ivon Jones (Capelygroes), Marjorie Daley (Rhydygwin), Ann Davies (Alltyplaca), Aneirin Jones (Brondefii). Arweinydd y cyfarfod hwn oedd y Parch. Lewis Williams. Cyfeiriodd at un o blant diwyd yr enwad a hanai o deulu'r Jenkins Blaenwaun, sef Jenkyn Ivon Jones, Blaencwrt, a basiodd yr arholiad Intermediate mewn Tonic Solffa, yr unig ymgeisydd o holl blant yr enwad.

Ymhell cyn cychwyn cyfarfod y prynhawn yr oedd yr adeilad helaeth yn orlawn, a dechreuwyd gan y Parch. S. E. Bowen. Ef a fu'n gofalu am y cyfarfod hwn. Llywyddwyd gan Mr. L. T. Thomas, Penarwel. Clywsom ganddo araith bwrpasol yn llawn o deimlad gwresog dros gadw'r Gymanfa i'r lan. Ers blynyddoedd bu'n flaenllaw gyda'r canu, yn un o'r *pioneers* yn y dosbarth isaf, a gobeithio y caiff eto lawer o flynyddoedd i wasanaethu ar y pwyllgorau. Cafwyd datganiad o'r unawd, "O, rest in the Lord" (Handel) gan Miss Dilys Davies, Llanbedr. Fel ei mam, yn selog yn yr ysgol gân a'r *rehearsals*, medd ar lais alto cyfoethog.

Rheolydd cyfarfod yr hwyr oedd Mr. Josiah Jones, Y.H., Garthowen, a dechreuwyd y cyfarfod gan y Parch. Lewis Williams. Llywyddwyd gan Mrs. Williams, Y.H., Y Wenllys, Llanbedr, aelod o gynulleidfa Soar, a dynes dda yn yr ardal, haelionus a charedig. Siaradodd am y "tadau a fu" a'r gwaith da a wnaethant yn eu hamser er mwyn gosod ein Cymanfa Ganu ar sylfaen mor gadarn. Credai fod safon canu Cymanfa'r Undodiaid yn un uchel iawn.

Diolchwyd yn gynnes gan Mr. Josiah Jones am fenthyg y capel. Diolchodd hefyd i bawb a fu'n gweithio dros lwyddiant y dydd. Cyfeiriodd at le gwag y diweddar Mr. Timothy Richards, Ardwyn. Hyd y gallai drwy'r blynyddoedd bu'n gyson yn ein cymanfaoedd. Y mae ei le yn wag yn Soar.

Yr arweinydd oedd Mr. Idris Griffiths, A.R.C.O., Llanelli. Yr oedd perffeithrwydd ei fedr yn help ac yn hyder i'r cantorion fel y bu'r canu drwy'r dydd yn addolgar a bendithiol i bawb. Clywyd moliant i Dduw yn ei nerth, a'r cór fel arfer yn cydbwyso'n effeithiol. Teimlid y golled ar ôl llawer o'r bechgyn sydd yn ymladd â'r gelyn ar hyn o bryd. Nid aeth y dydd heibio heb gofio amdanynt. Dymunwn eu gweld oll yn dychwelyd yn ddiogel yn ôl yn fuan.

Er na fu'r arweinydd yn un o'r *rehearsals* amlwg oedd gwaith yr arweinyddion lleol, sef Mr. Tom Davies, Llwynrhydowen a Mr. Ted Jones, Llanbedr. Yr oedd trefniadau'r dydd yn llaw ein hysgrifennydd gweithgar, Mr. Dan Davies, L.T.S.C., Alltyplaca.

Yr anthemau eleni oeddent "Da yw moliannu'r Arglwydd" (D. Parry) a "Hosanna'r Plant" (J. C. Thomas).

Er anawsterau'r amser credwn fod pawb yn teimlo mai da oedd bod yno.

[*Derbyniwyd dau adroddiad, un oddiwrth J.C.J., Brynteifi, a'r llall oddiwrth D.D. Ceisiwyd gwneud un o'r ddau.*—GOL.]

Priodasau.

YM Mrondeifi ar fore Iau, Gorffennaf 1, DAVID MUNRO ROWSE o'r Llu Awyr, 1, Hove Avenue, Brighton, a 'PHEGGIE', merch hynaf Mr. a'r diweddar Mrs. Davies, Hengoed, Heol y Farchnad, Llanbedr. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog. Dymunwn bawb yma 'ddyddiau gwyn' i Dave a Pheggie er iddynt ymadael â Llanbedr gan drigo mwy yn yr Orkney.

YNG Nghaeronnen ar ddydd Sadwrn, Gorffennaf 17, unwyd mewn glân briodas TOM DAVIES, 'Penpompren,' a Chaehir, Cribyn â 'MAYO,' merch Mr. a Mrs. Jones, Tŷ'r Capel, Caeronnen. Boed yr awyr yn lâs a heulwen yn y nef iddynt ill dau. Gwasanaethwyd gan y Gweinidog.

Marwgofion.

MEHEFIN 28, bu farw GEORGE DAVIES, Bryngwineu, Llanwnen yn 74 mlwydd oed. Brodor o Aberaeron ydoedd, a daeth i Lanwnnen fel garddwr yn y Neuadd Fawr, lle bu am 29 mlynedd hyd oni thorrodd ei iechyd i lawr. Nid oedd o gyfansoddiad cryf a bu'n wannaidd iawn ers tro. Gŵr tawel, llednais, caredig a fu ar hyd ei oes ac yn hoff iawn gan y rhai a'i hadwaenai. Bu'n ffyddlon iawn yn Eglwys Llanwnnen tra gallai fynd yno. Gadawodd weddw ac un ferch mewn galar mawr o golli priod addfwyn a thad tyner. Claddwyd ef y dydd Iau dilynol ym mynwent Eglwys Llanwnnen. Gwasanaethodd y Parch. Ben Davies, offeiriad Llanarth a'r Parch. A. J. Martin yn y tŷ, a'r Parch. S. Morgan, Ficer Llanwnnen yn yr Eglwys. Yr oedd y Parch. D. Evans, Cwmiago yno hefyd.

ER mawr siom i gylch mawr o gydnabyddion a pherthynasau bu farw ar ôl hir gystudd SARAH EVANS, Gwarcefel Arms, Llandysul bore dydd Sul, Awst 1, yn 75 mlwydd oed, a chladdwyd ei chorff yng nghladdfa Llwynrhydowen y Mercher dilynol pryd y daeth cwmni mawr o gyfeillion a chymdogion ynghyd er mwyn dangos eu parch i gymeriad mor swynol a'n chwaer ymadawedig. Gwasanaethwyd yn y tŷ gan y Parch. E. O. Jenkins, ac yn y capel ac ar lan y bedd gan y Parch. S. E. Bowen a'i gweinidog. Talodd yr olaf deyrnged uchel iawn i'r diweddar chwaer gan sôn am ei thawelwch ysbryd, ei charedigrwydd a'i thymer fwyn ; llanwai le pwysig ym mywyd ardal Prengwyn a trwm yw'r hiraeth ar ei hôl. Cydymdeimlwn yn fawr a'i phriod a'r ferch a'r wyres fach yn eu hiraeth a'u hunigrwydd. "Digonir fi, pan ddihunwyf, â'th ddelw Di."

Nodion yr Eglwysi.

COLEG CAERFYRDDIN.—Cynhelir cwrdd blynyddol y cyn-fyfyrwyr ar ddydd Mawrth, Hydref 5. 1943, Cwrdd am 2 o'r gloch o dan lywyddiaeth y Parchedig Rhys Williams, Maenclochog. Traddodir darlith y Dr. Williams's Trust gan yr Athro J. Vernon Lewis, M.A., B.D., Aberhonddu ar "The Word of God in Theory and Experience.".—D. WILLIAMS, *Ysgrifennydd*, Abergwili.

LLUNDAIN.—Cyferfydd yr Eglwys Undodaidd Gymraeg yn Eglwys Unity, Upper Street, Islington, N. y Sul cyntaf yn y mis am 4.15 p.m. Yr oedd yr ystafell fach yn llawn ar y Sul cyntaf ym mis Gorffennaf, pan gafwyd oedfa lawn o ysbrydiaeth. Rhoes y Parch. Aubrey J. Martin, B.A. bregeth hwylus iawn inni. Dangosodd y medr dyn wneuthur daioni trwy ei amgylchiadau neu er gwaethaf ei amgylchiadau os bydd Duw yn ei galon. Diolchwn i Mr. Martin am ddyfod atom, a gobeithiwn ei weled a'i glywed cyn bo hir eto. Yn y cwrdd eglwys wedi'r gwasanaeth rhoes ein Trysorydd, Mr. J. O. Lewis, fanylion o'n sefyllfa ariannol, ac eglurwyd bod ein trysorfa yn foddhaol, er efallai nad oedd y rhagolygon yn llewyrchus iawn. Pleser oedd cael gair gan y Parchedig J. Arthur Pearson amser tê, a chlywed ganddo hanes diddorol y cwrdd blynyddol yng Ngholeg Caerfyrddin eleni. Yn ystod y mis hwn clywodd ein Ysgrifennydd oddi wrth Mr. Hugh Joyce ; y mae'n danfon ei ddymuniadau gorau atom o India bell. Dymunwn ninnau bob hwyl iddo ef a'i gymrodyr, a dychweliad buan i'r wlad hon. Pleser oedd gweled morwr ac awyrwr yn ein gwasanaeth diwethaf, a gobeithiwn gael eu gweled eto'n addoli gyda ni. Hapus oedd gennym glywed oddiwrth y Parchedig J. D. Jones, B.A., B.D., Llywydd newydd y Gymdeithas Undodaidd Gymraeg, ei fod yn barod i ddyfod atom yn ystod ei lywyddiaeth. Dengys hyn ein bod yn agos i'w galon, a bod yr eglwysi yng Nghymru yn cofio amdanom ni'r alltudion. Edrychwn ymlaen am ymweliad buan Mr. Jones â Llundain. Trefn y dyfodol : Medi—Y Parch. D. Jacob Davies.

Argraffwyd gan J. D. Lewis a'i Feibion yng Ngwasg Gomer, Llandysul.